PŴER NIWCLEAR HORIZON NUCLEAR POWER

DYFODOL
Ysbrydoli cenhedlaeth

LEFEL ADDYSG: UWCH

Faint wnaeth hi ei gostio i'r dosbarth wylio'r teledu ddoe?

Yn fras, faint wnaeth hi ei gostio i bawb yn y dosbarth wylio eu setiau teledu ddoe?

Gwna arolwg dosbarth:

Am faint o amser y gwnaeth pobl yn y dosbarth wylio'r teledu ddoe? Marcia i'r hanner awr agosaf.

AMSER (a:mm)	Enghraifft: 1.30 awr	0	0:30	1:00	1:30	2:00	2:30	3:00	3:30	4:00
CYFRIF	III									
CYFANSWM	3									
CYFANSWM AMSER	3 x 1.30 = 4.30									

Defnyddia y data i lunio siart bar.

Cofia:

Graddfa **E**chelinau **L**abeli **T**eitl



Edrycha ar ganlyniadau dy arolwg ac ateb y cwestiynau hyn

1. Faint o bobl sydd yn dy ddosbarth?
2. Beth oedd yr amser byrraf i rywun wylio'r teledu?
3. Beth oedd yr amser hiraf i rywun wylio'r teledu?
4. Am faint o amser y gwnaeth y rhan fwyaf o bobl wylio'r teledu?
5. Am faint o amser i gyd y gwnaeth y dosbarth cyfan wylio'r teledu?

Pŵer teledu yw 0.2 cilowat (kW). Mae angen 2 kW ar gyfer tegell, felly mae angen 10 gwaith yn fwy o drydan i'w ddefnyddio. Mae'n costio 15c i redeg rhywbeth sy'n 1 kW am un awr.

1. Faint fyddai'n ei gostio i ddefnyddio tegell am un awr?
2. Faint fyddai'n ei gostio i ddefnyddio'r teledu am un awr?
3. Faint fyddai'n ei gostio i ddefnyddio pob set deledu gafodd ei defnyddio gan y dosbarth ddoe?
4. Faint mae'n ei gostio i ddefnyddio pob set deledu am wythnos?
5. Faint mae'n ei gostio i ddefnyddio pob set deledu am flwyddyn?
6. Defnyddia'r fformiwla isod i amcangyfrif beth yw bil trydan dy gartref:
   Cost (£) = (10 + 10n) x 15 (**n** yw nifer y bobl sy'n byw yn y tŷ)